Rhybudd o Benderfyniadau **Cyfarfod y Cabinet** a gynhaliwyd yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar **Ddydd Mawrth, 6 Medi 2022**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5.00pm Dydd Iau, 8 Medi 2022. Y dyddiad olaf i dderbyn cais i alw unrhyw benderfyniad i mewn yw 5.00pm Dydd Iau, 15 Medi 2022 drwy ei anfon at Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) Dydd Gwener, 16 Medi 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Bryan Davies (Cadeirydd), y Cynghorwyr Catrin M S. Davies, Clive Davies, Keith Henson, Wyn Thomas, Matthew Vaux ac Alun Williams.

HEFYD YN BRESENNOL: Y Cynghorwyr Euros Davies, Elizabeth Evans, Rhodri Evans, Gareth Lloyd, Caryl Roberts a Gwyn Wigley Evans.

(10.05am - 11.43am)

45 Ymddiheuriadau

Ymddiheurodd y Cynghorydd Gareth Davies am nad oedd modd iddo fod yn bresennol yn y cyfarfod.

46 Materion Personol

i. Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Gwyn Wigley Evans a'i deulu ar golli eu mab.
ii. Llongyfarchwyd pawb a fu'n ymwneud â chynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru, a gynhaliwyd yn y sir ym mis Awst. Diolchodd yr Arweinydd yn bersonol i bawb a fu'n ymwneud â Phentre' Ceredigion a sicrhaodd fod yr ŵyl yn llwyddiant.
iii. Dymunwyd yn dda i'r Cynghorydd Mark Strong, sydd wedi dychwelyd adref yn ddiweddar ac sy'n gwella.
iv. Llongyfarchwyd pawb a gynrychiolodd Ceredigion a Chymru yn ddiweddar yng Ngemau'r Gymanwlad 2022 yn Birmingham. Llongyfarchwyd Anwen Butten o Lanbedr Pont Steffan ar gael ei henwi'n Gapten Tîm Cymru.
v. Llongyfarchwyd y seiclwr Josh Tarling hefyd ar gael ei arwyddo gan Ineos Grenadiers.
vi. Diolchwyd i'r staff am eu holl waith ac am gydweithio â phartneriaid eraill i sicrhau llwyddiant Rali Ceredigion 2022.

47 Datgelu buddiannau personol / buddiannau sy'n rhagfarnu

Datganodd y Cynghorydd Bryan Davies fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 53.

48 Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cabinet ac unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny

Cadarnhau bod cofnodion Cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf 2022 yn gywir.

Materion yn codi: Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.

49 Unrhyw ddeisebau a dderbyniwyd
Dim.

50 Unrhyw benderfyniadau (os oes rhai) a alwyd i mewn gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu
Dim.

51 Unrhyw adborth gan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu sydd ddim ar yr agenda
Dim.

52 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd ynghylch Adroddiad ar y ffioedd arfaethedig ar gyfer Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
i. Cymeradwyo'r strwythur ffioedd sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad (tudalen 2).
ii. Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Galluogi'r broses o drwyddedu safleoedd yn ôl gofynion y ddeddfwriaeth newydd.

53 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ynghylch Strategaeth a Chynllun Gweithredu Ceredigion ar gyfer Gwefru Cerbydau Trydan gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
i. Argymell bod y Cyngor yn mabwysiadu'r Fersiwn ddrafft y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 1).
ii. Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Rhoi cefnogaeth i sicrhau bod ymrwymiad y Cyngor i leihau allyriadau carbon y sector trafnidiaeth a theithio yn cael ei gyflawni'n effeithiol, fel y'i cyflwynir yn y Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Sero Net Corfforaethol.

54 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Gofal ynghylch Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026 gydag adborth gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu
PENDERFYNIAD:
i. Cymeradwyo'r Cynllun y Rhaglen Cymorth Tai (Atodiad 1).
ii. Cymeradwyo'r Datganiad o Anghenion (Atodiad 2).
iii. Nodi'r adborth o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn cydymffurfio â phroses ddemocrataidd yr Awdurdod a galluogi i Gynllun y Rhaglen Cymorth Tai gael ei gyhoeddi. Er mwyn cydymffurfio â

chanllawiau Llywodraeth Cymru ac amodau'r grant wrth dderbyn refeniw grant y Grant Cymorth Tai.

55 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb Refeniw Reoladwy 2022/23 - Perfformiad Ariannol

PENDERFYNIAD:

1. Cymeradwyo'r newid arfaethedig yn y tybiaethau a geir yn y Gyllideb o ran y defnydd a wneir o'r cyllid gwreiddiol o £1m a gafwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn Adran 2i) a ii) yr adroddiad.
2. Nodi y bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i effaith ariannol y Dyfarniadau Cyflog yn ystod y flwyddyn.
3. Nodi'r angen i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei lobïo'n weithredol a'i bod yn gwbl ymwybodol o'r heriau ariannol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu.
4. Nodi'r sefyllfa refeniw gyffredinol a amlinellir yn yr adroddiad.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor sefyllfa ariannol fantoledig ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

56 Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Cyllid a Chaffael ynghylch Adroddiad Monitro'r Rhaglen Gyfalaf Chwarter 1

Nodwyd yr adroddiad.

57 Nodi adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Adroddiad Rheoli Perfformiad Y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 3 2021/22

Nodwyd yr adroddiad.

58 Ystyried adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol Porth Cynnal ynghylch Caffael Gwasanaethau Byw â Chymorth

PENDERFYNIAD:
Cytuno i ddyfarnu lleoedd ar y System Brynu Ddeinamig i'r darparwyr sydd wedi bod yn llwyddiannus, yn amodol ar gyfnod segur statudol o 10 diwrnod.

Y *rheswm dros y penderfyniad:*
Sicrhau bod gwasanaethau byw â chymorth yn eu lle i ddiwallu anghenion gofal a chymorth a aseswyd, yn unol â rhwymedigaethau statudol y Cyngor.

59 EITEM EITHRIEDIG

Nid yw'r adroddiad ar eitem 59 ar gael i'w gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o ran 4 o atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth)(Amrywio)(Cymru) 2007. Os bydd y Cyngor yn penderfynu ystyried yr eitem hon yn breifat, ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd, caiff y cyhoedd eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth honno, yn unol ag Adran 100B(2) o'r Ddeddf.

Gofynnwyd i'r Aelodau, wrth ymdrin â'r eitem, ystyried a ddylid gwahardd y cyhoedd a phwyso o'r Cyfarfod.

PENDERFYNIAD:
Peidio gwahardd y cyhoedd a'r wasg o'r cyfarfod

Y rheswm dros y penderfyniad:
Ni thrafodwyd y ddogfen yn gyhoeddus

60 Unrhyw fater arall y penderfyna'r Cadeirydd fod arno angen sylw brys gan y Cabinet
Dim.

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar Ddydd Mawrth, 4 Hydref 2022

Cadeirydd: _____

Dyddiad: _____